

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Prifysgol Caerdydd a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2023. am 10.00 yn ystafell 0.27A a 0.27B, Adeilad Hadyr Ellis, Heol Maendy, Caerdydd.

Yn bresennol: Patrick Younge (Cadeirydd), Is-ganghellor, Angie Flores Acuna, yr Athro Rudolf

Alleman, Yr Athro Rachel Ashworth, Paul Baston, Judith Fabian, Yr Athro Fonesig Janet Finch, Michael Hampson, Jan Juillerat, Jeremy Lewis, David Selway, John Shakeshaft, Dr Pretty Sagoo [Cofnodion 2127-2133], Yr Athro Damian Walford Davies, Jennifer Wood, Agnes Xavier-Phillips.

Mynychwyr: Eileen Brandreth [Cofnod 2126], Katy Dale [Cymryd cofnodion], Laura Davies [Cofnod 2130], Rashi Jain, Sian Marshall, Claire Morgan [Cofnodion 2129-2131], Claire Sanders, Darren Xiberras, yr Athro Ian Weeks [Cofnod 2133] a'r Athro Roger Whitaker.

2118 Croeso a materion rhagarweiniol

Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

2119 Ymddiheuriadau am absenoldeb

Cafwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Marc Buehner, Gina Dunn, Christopher Jones, Dr Joanna Newman a Suzanne Rankin. Cadarnhawyd bod gan y cyfarfod gworwm.

2120 Datgan buddiant

Atgoffodd y Cadeirydd aelodau'r Pwyllgor am eu dyletswydd i ddatgelu unrhyw wrthdaro buddiannau posibl. Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2121 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Hydref 2023 (22/298C) yn gofnod gwir a chywir, ac fe'u cymeradwywyd i gael eu llofnodi gan y Cadeirydd.

2122 Materion a godir

Cyflwynwyd ac ystyriwyd papur 22/538 'Materion yn Codi'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

2122.1 bod y Cyngor wedi gofyn am ddiweddariad ar y rhaglen ôl-groniad cynnal a chadw a'r dyddiadau ar gyfer cwblhau'r gwaith hwn; nodwyd bod gwaith ar y gweill ar gyfer arolwg cyflwr yr ystâd.

2123 Eitemau gan y Cadeirydd

Derbyniwyd papur 22/534C, 'Gweithredu y Cadeirydd'. Siaradodd y Cadeirydd am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2123.1 Atgoffwyd aelodau'r Cyngor am y dyddiad cau i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn seremonïau a digwyddiadau graddio;
- 2123.2 bod y dyddiad cau i gyflwyno hawliadau treulïau bellach yn 60 diwrnod o'r dyddiad gwario/dychwelyd;
- 2123.3 bod Varsity wedi digwydd ddoe a Chaerdydd wedi ennill; estynnwyd diolch i Undeb y Myfyrwyr, yr Undeb Athletau, Claire Morgan, Stuart Vanstone a'r tîm a oedd wedi trefnu'r digwyddiadau; canmolwyd hefyd yr amrywiaeth o weithgareddau a oedd ar gael; nodwyd bod ymddygiad wedi bod yn gadarnhaol iawn ar y cyfan ac nad oedd unrhyw gwynion wedi bod i'r tîm Diogelwch hyd yn hyn;
- 2123.4 bod amcanion y Cadeirydd wedi cael eu gosod ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac y byddent yn cael eu rhannu gyda'r Cyngor.

2124 Adroddiad Yr Is-ganghellor i'r Cyngor

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/563C, 'Adroddiad yr Is-ganghellor i'r Cyngor'. Siaradodd yr Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2124.1 [Hepgorwyd]
- 2124.2 [Hepgorwyd]
- 2124.3 [Hepgorwyd]
- 2124.4 [Hepgorwyd]
- 2124.5 bod dyfarniadau ymchwil yn perfformio'n dda, sef £144m ar ôl 8 mis; cyfanswm y flwyddyn a berfformiodd orau yn flaenorol oedd tua £150m am y 12 mis llawn;
- 2124.6 bod y ffigurau recriwtio yn gadarnhaol, gyda chartref israddedig yn gwneud yn arbennig o dda; bod prosesau derbyn wedi cael eu hadolygu yng ngoleuni'r materion a brofwyd y llynedd; eglurwyd nad oedd gan y Brifysgol hawl i godi ffioedd dysgu gwahanol ar gyfer gwahanol ranbarthau neu ardaloedd;
- 2124.7 codwyd ymholiad mewn perthynas â'r gostyngiad mewn ceisiadau ymchwil ôl-raddedig yng Ngholeg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf (y manylir arnynt yn Atodiad A yr adroddiad) a'r esboniadau posibl ar gyfer hyn.

Penderfynwyd

- 2124.7 egluro a oes esboniadau am y duedd sy'n gostwng mewn ceisiadau ymchwil ôl-raddedig yng Ngholeg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd.

2125 Cofrestr Risgiau

Cyflwynwyd, ac ystyriwyd papur 22/453HC, 'Cofrestr Risgiau'. Siaradodd yr Is-ganghellor am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2125.1 [Hepgorwyd]

2125.2 [Hepgorwyd]

2125.3 [Hepgorwyd]

2125.4 [Hepgorwyd]

2125.5 [Hepgorwyd]

2125.6 [Hepgorwyd]

2125.7 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

2125.8 cymeradwyo'r gofrestr risg wedi'i diweddarau;

2125.9 adolygu'r risg ychwanegol a nodwyd yn 2125.6 i'w cynnwys ar y gofrestr.

2126 Achos Busnes Seiberddiogelwch

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/458HC, 'Rhaglen Seiberddiogelwch y Brifysgol'. Siaradodd y Prif Swyddog Gweithredu am yr eitem hon.

Nodwyd

2126.1 ymunodd y Prif Swyddog Gwybodaeth â'r cyfarfod;

2126.2 [Hepgorwyd]

2126.3 [Hepgorwyd]

2126.4 [Hepgorwyd]

2126.5 [Hepgorwyd]

2126.6 [Hepgorwyd]

2126.7 [Hepgorwyd]

2126.8 [Hepgorwyd]

2126.9 [Hepgorwyd]

Penderfynwyd

2126.10 i gymeradwyo'r achos busnes, yn benodol:

1. creu Rhaglen Seiberddiogelwch gydag adnoddau priodol i liniaru'r risgiau seiber y mae'r Brifysgol yn eu hwynebu;
2. buddsoddiad cychwynnol o [Ffigur wedi'i Olygu] ar draws rhaglen weithredu 3 blynedd (yn rhychwantu 2022/23 i 2025/26), a ariennir o warged arian parod a gynhyrchwyd yn 2021/22;
3. yr angen am wariant refeniw rheolaidd ychwanegol o [Ffigur wedi'i Olygu] dros yr un cyfnod, gyda chynnydd cynyddrannol o [Ffigur wedi'i Olygu] yn 2023/24 yn codi i [Ffigur wedi'i Olygu] yn 2025/26 i ddiogelu ystum seiberddiogelwch y Brifysgol;

Gadawodd Eileen Brandreth (Prif Swyddog Gwybodaeth) y cyfarfod.

2127 Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr

Derbyniwyd ac ystyriwyd papurau 22/561 'Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr'. Siaradodd yr Is-Lywydd Ôl-raddedig â'r eitem hon.

Nodwyd

- 2127.1 bod etholiadau'r Gwanwyn wedi'u cynnal a bod manylion tîm y flwyddyn nesaf wedi'u cynnwys yn y papur; croesawyd Angie Flores Acuna fel Llywydd y flwyddyn nesaf; nodwyd na fyddai rôl Is-Lywydd Lles yn cael ei phenodi iddi, a bod cyfrifoldebau'r rôl yn cael ei dosbarthu rhwng swyddogion eraill; roedd Is-Lywydd yr Iaith Gymraeg, Cymuned a Diwylliant wedi cael eu cyflwyno;
- 2127.2 bod Undeb y Myfyrwyr wedi ymuno â'r Brifysgol i gefnogi Pride Cymru eleni;
- 2127.3 bod gwaith wedi'i wneud i ddatblygu cynigion o'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; roedd aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp gorchwyl a gorffen ar gyfer yr eitem "heddlu oddi ar y campws" wedi'u cwblhau; byddai'r grŵp hwn yn ystyried cyflawni'r hyn yr oedd myfyrwyr wedi gofyn amdano wrth gynnal y berthynas â'r heddlu;
- 2127.4 roedd Undeb y Myfyrwyr wedi parhau i fwydo eich digwyddiadau fflat, cefnogi mis Hanes LGBTQ+, cynnal digwyddiad Palentinau ac ymestyn eu cymorth costau byw gyda diodydd poeth am ddim ym Mharc y Mynydd Bychan, ac mewn Parthau Astudio Ôl-raddedig;
- 2127.5 bod y digwyddiadau sydd ar y gweill yn cynnwys Taith Parc y Mynydd Bychan, cymorth adolygu parhaus a chefnogaeth, a Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr.

Penderfynwyd

- 2127.6 i aelodau'r Cyngor roi gwybod i'r Prif Swyddog Gweithredu pe byddent yn dymuno mynychu'r Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr.

2128 Grant Bloc Undeb y Myfyrwyr

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/461C, 'Grant Bloc Undeb y Myfyrwyr 2023-24'. Siaradodd y Prif Swyddog Gweithredu am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2128.1 bod y papur wedi'i lunio mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr a'i adolygu gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau;
- 2128.2 roedd y papur yn gofyn am daliad yn ystod y flwyddyn o [Ffigur wedi'i Olygu] i ddod â grant eleni i gyfanswm o [Ffigur wedi'i Olygu] (fel y llynedd);
- 2128.3 roedd cais wedi'i wneud am Grant Bloc o [Ffigur wedi'i Olygu] ar gyfer 2023-24 ac roedd y Bwrdd a'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau wedi cytuno ar hyn yn [Ffigur wedi'i Olygu], gyda'r posibilrwydd o gynnydd yn cael ei adolygu yn ddiweddarach yn y flwyddyn unwaith y byddai sefyllfa ariannol y Brifysgol yn fwy adnabyddus;

- 2128.4 bod Undeb y Myfyrwyr yn adolygu ei gostau a bod trafodaethau'n cael eu cynnal ynghylch ffordd i alluogi ffordd hawdd i gynhyrchu Grant Bloc;
- 2128.5 er gwaethaf cynnydd yn nifer y myfyrwyr, roedd myfyrwyr yn gwario llai oherwydd yr argyfwng costau byw;
- 2128.6 yr awgrym bod cynaliadwyedd y model cyllido presennol yn cael ei adolygu, o ystyried amgylchiadau fel myfyrwyr yn gwario llai, llai o ddibyniaeth ar werthu alcohol, yr angen i ymgysylltu mwy â myfyrwyr ôl-raddedig a rhyngwladol, a'r newid i leoliadau cerddoriaeth yng Nghaerdydd;
- 2128.7 y dylai Undeb y Myfyrwyr adolygu'r posibilrwydd o dalu'r cyflog byw, o ystyried bod y Brifysgol yn gyflogwr Cyflog Byw.

Penderfynwyd

- 2128.8 cymeradwyo bod Undeb y Myfyrwyr yn derbyn:
1. taliad yn ystod y flwyddyn o [Ffigur wedi'i Olygu] (yn unol â thaliadau tebyg a wnaed yn 2020, 2021 a 2022) i ddod â grant bloc UM ar gyfer 2022-23 i £3.3m (yr un fath â 2021-22);
 2. bod grant bloc sylfaenol o [Ffigur wedi'i Olygu] ar gyfer 2023-24 a'r posibilrwydd y bydd hyn yn cael ei gynyddu i [Ffigur wedi'i Olygu] yn cael ei adolygu unwaith y byddai sefyllfa ariannol y Brifysgol yn fwy adnabyddus;
 3. ystyried y prosesau ymgeisio am grantiau cyfalaf;
- 2128.9 i'r model ariannol ar gyfer Undeb y Myfyrwyr gael ei adolygu;
- 2128.10 i Undeb y Myfyrwyr ymchwilio i weld a ellir talu'r Cyflog Byw.

2129 Diweddariad ar Weithgaredd Gwella Addysg a Phrofiad Myfyrwyr

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/562 'Diweddariad ar Weithgaredd Gwella Addysg a Phrofiad Myfyrwyr.' Gwahoddwyd y Rhag Is-Ganghellor Dros Addysg a Phrofiad Myfyrwyr i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2129.1 nad oedd unrhyw feysydd newydd o bryder neu syndod i'w codi i'r Cyngor;
- 2129.2 bod myfyrwyr ôl-raddedig yn cael eu harolygu drwy'r Arolwg Cenedlaethol o Brofiad Ôl-raddedigion a Addysgir (PTES) ac arolwg mewnol; byddai canlyniadau'r rhain yn cael eu darparu i'r Cyngor ym mis Gorffennaf i ganiatáu am ddwy flynedd o ganlyniadau;
- 2129.3 nad oedd dyddiad cyhoeddi arolwg yr NSS yn hysbys eto; nid oedd data sampl wedi'i rannu eto a oedd yn atal adroddiadau rhag cael eu hadeiladu ymlaen llaw; felly roedd yn annhebygol y byddai'r canlyniadau'n barod ar gyfer cyfarfod nesaf y Cyngor;
- 2129.4 bod y Grŵp Goruchwylio Perfformiad Addysg yn parhau i gyfarfod ac yn canolbwyntio ar y 7 pwnc gyda lefelau uwch o fonitro; roedd pryderon yn parhau ynghylch Ysgolion y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Cyfrifiadureg a Gwybodeg a Gwyddorau Cymdeithasol, ac roedd gwaith yn cael ei wneud i benderfynu sut i adeiladu profiad cynaliadwy i fyfyrwyr yn y meysydd hyn i fynd i'r afael â phryderon;

- 2129.5 bod cynnydd da wedi'i wneud gyda'r Ysgol Fusnes ar nifer o feysydd ac mewn perthynas â'r cynlluniau Economeg;
- 2129.6 bod camau wedi'u cymryd ar unwaith yn dilyn yr archwiliad mewnol ar ganlyniadau a marciau; sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu canlyniadau'r haf a gweithio tuag at sicrhau un broses; nid oedd effaith y boicot marcio ac asesu eto i'w gweld a gallai arwain at fewnbynnu marciau â llaw nad oedd yn ddymunol. Er mwyn mynd i'r afael â phryderon am ganlyniadau eleni byddai marciau'n cael eu hychwanegu at y system mewn da bryd i ganiatáu gwirio ac adolygu cyn cyhoeddi trawsgrifiadau.

2130 Cau'r Cylch Adborth

Ymunodd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr â'r cyfarfod i gyflwyno'r eitem hon.

Nodwyd

- 2130.1 bod yr ymgyrch yn bwriadu dangos sut yr oedd adborth gan fyfyrwyr (yn ffurfiol ac yn anffurfiol) yn cael ei weithredu i wella eu profiad; byddai hyn yn gorfforol (baneri a phosteri) ac yn ddigidol (cyfryngau cymdeithasol a sgriniau teledu) ac yn canolbwyntio ar ddefnyddio graffeg;
- 2130.2 bod enghreifftiau da yn cynnwys gosod plygiau yn Llyfrgell y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol, caeau newydd yn Llanrhymni, gwirio capasiti mewn llyfrgelloedd a gwersi iaith am ddim i bawb;
- 2130.3 y byddai negeseuon yn berthnasol i'r lleoliadau a'r myfyrwyr yn y lleoliadau hynny;
- 2130.4 byddai pwyntiau awgrymu'n cael eu hychwanegu ar draws y campws i ddangos adborth ar waith a hefyd i ganiatáu adborth pellach gan fyfyrwyr;
- 2130.5 roedd y prosiect wedi cael ei gyflwyno i ddechrau drwy lansiad meddal ac roedd ei effaith yn cael ei adolygu (e.e. drwy gyfraddau agored, cyfraddau clicio drwodd ac ati); byddai'r ymgyrch yn cael ei hymestyn i feysydd eraill ac yn caniatáu i fyfyrwyr bleidleisio dros y syniadau gorau;

Ymgyrch Rhagoriaeth Addysgu

- 2130.6 roedd prosiect arall wedi'i lansio i ddathlu ansawdd y staff addysgu;
- 2130.7 darparwyd hyn yn bennaf drwy fideos dilys ac angerddol y gallai pawb eu cyrchu, i ysbrydoli myfyrwyr, darparu cyfleoedd dysgu i staff ac i ddathlu staff addysgu; y bwriad oedd adlewyrchu pwysigrwydd addysgu ac ymchwil ochr yn ochr â'i gilydd, yn hytrach na bod mewn cystadleuaeth;
- 2130.8 bod cysylltiad wedi ei wneud â myfyrwyr i enwebu staff addysgu gwyh;
- 2130.9 ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw groesffordd gyda'r Gwobrau Cyfoethogi Bywyd Myfyrwyr; awgrymwyd y gellid rhannu fideos o'r seremoni wobrwyo i ysbrydoli mwy.

Gadawodd Laura Davies (Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Marchnata a Recriwtio Myfyrwyr) y cyfarfod.

2131 Adroddiad Gwella Blynyddol

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/565 'Adroddiad Gwella Blynyddol 2021-22'. Siaradodd y Dirprwy Is-ganghellor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2131.1 mai adroddiad cyntaf oedd hwn ac na chafodd ei lunio i fodloni gofyniad rheoleiddiol;
- 2131.2 y bwriadwyd hyn fel dogfen sy'n cymharu â'r Adroddiad Ansawdd Blynyddol (a oedd yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd) i ddarparu manylion am weithgareddau gwella ansawdd (h.y. sut yr oedd profiad myfyrwyr academiaidd yn gwella);
- 2131.3 na ddatblygwyd gwella ansawdd yng Nghymru a nod yr adroddiad hwn oedd helpu'r sefydliad i ddod yn fwy aeddfed wrth ddangos tystiolaeth o'i weithgareddau gwella ansawdd; byddai hyn yn fuddiol iawn ar gyfer ymweliadau gan yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn y dyfodol, a'r gobaith oedd y gellid defnyddio'r adroddiadau hyn fel tystiolaeth yn y dyfodol;
- 2131.4 roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar y strategaeth a'i themâu, ac yn adolygu'r gweithgareddau a wnaed a sut y cafodd effaith y gweithgareddau hyn ei thystio a'i gwerthuso; roedd hyn yn dangos lefelau aeddfedrwydd gwahanol mewn gwahanol feysydd;
- 2131.5 bod yr adroddiad wedi'i farcio'n anghywir i'w gymeradwyo; roedd y papur hwn i'w drafod gan nad oedd yn ofynnol ei roi i reoleiddiwr;
- 2131.6 bod yr adroddiad ar lefel sefydliadol gan nad oedd methodolegau ar gyfer ysgolion, colegau a lefelau Gwasanaethau Proffesiynol wedi'u datblygu eto;
- 2131.7 bod y Pwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr wedi awgrymu fformat o'r mesurau llwyddiant yn dilyn naratif ac y gellid mabwysiadu ar gyfer fersiynau yn y dyfodol;
- 2131.8 bod yr adroddiad yn darparu tystiolaeth o waith da a wnaed a manylion am y taflwybr ymlaen;
- 2131.9 bod yr Adroddiad gan y Senedd (papur 22/535C) yn nodi bod y Senedd wedi dymuno i'r Cyngor gael gwybod am ddiffyg ymgysylltiad canfyddedig â Phwyllgorau Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr a Byrddau Astudiaethau ar fewnbynnu a datblygu strategaeth; nodwyd bod y nodyn hwn gan y Senedd wedi canolbwyntio ar Ysgol benodol a byddai hyn yn cael ei adolygu gyda Phennaeth yr Ysgol honno; byddai'r strwythur addysg sydd newydd ei weithredu yn cael ei adolygu yn yr haf a byddai hyn yn helpu i nodi unrhyw faterion gyda'r berthynas rhwng Pwyllgorau Addysg Ysgol a Phrofiad Myfyrwyr a Byrddau Astudiaethau;
- 2131.10 bod y papur wedi cael derbyniad da gan y Cyngor.

Dyma a ddywedodd Claire Morgan, Rhag Is-Ganghellor Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr:

2132 Adroddiad Cyllid

Derbyniwyd ac ystyriwyd papur 22/462C, 'Adroddiad Cyllid'. Siaradodd y Prif Swyddog Ariannol am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2132.1 ym mis Ionawr 2023, roedd diffyg gweithredu YTD [Ffigur wedi'i Olygu] a oedd [Ffigur wedi'i Olygu] yn anffafriol i'r gyllideb; roedd hyn oherwydd incwm [Ffigur wedi'i Olygu] is na'r gyllideb ac incwm ymchwil [Ffigur wedi'i Olygu] is na'r gyllideb, wedi'i wrthbwysu gan incwm [Ffigur wedi'i Olygu] o grantiau cyrff cyllido ac incwm buddsoddi ychwanegol [Ffigur wedi'i Olygu];
- 2132.2 bod costau cyflogau [Ffigur wedi'i Olygu] yn is na'r gyllideb, er bod y taliad *ex-gratia* i staff wedi effeithio ar hyn ym mis Tachwedd 2022; disgwylid arbedion pellach oherwydd gostyngiad mewn cyfraniadau Yswiriant Gwladol;
- 2132.3 bod costau di-dâl yn uwch na'r gyllideb, yn bennaf oherwydd mwy o wariant eiddo o [Ffigur wedi'i Olygu] yn sgil cynnydd mewn costau SLA a chyfleustodau;
- 2132.4 bod costau mewn perthynas â'r STIP yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd, ond bod tanwariant yn 2021/22 wedi cael ei drosglwyddo i wrthbwysu rhywfaint o hyn;
- 2132.5 bod colledion buddsoddi yn [Ffigur wedi'i Olygu] YTD, gydag enillion heb eu gwireddu o [Ffigur wedi'i Olygu] ym mis Ionawr 2023;
- 2132.6 bod y diffyg YTD yn [Ffigur wedi'i Olygu] yn anffafriol i'r gyllideb;
- 2132.7 bod cyfanswm y cronfeydd gweithredu [Ffigur wedi'i Olygu] ddiwedd mis Ionawr 2023, a oedd yn uwch na'r swm a gyllidebwyd o [Ffigur wedi'i Olygu], ac yn adlewyrchu sefyllfa ariannol gref;
- 2132.8 bod diffyg gweithredu blwyddyn lawn o [Ffigur wedi'i Olygu] yn cael ei ragweld yn Q2, a oedd yn dangos amrywiant cadarnhaol [Ffigur wedi'i Olygu] i'r rhagolwg Q1; roedd hyn [Ffigur wedi'i Olygu] yn anffafriol i'r gyllideb;
- 2132.9 bod codiad cyflog ar gyfer yr holl staff wedi'i weithredu ym mis Mawrth 2023 o 2% neu £1000 (pa un bynnag oedd fwyaf);
- 2132.10 bod optimistiaeth ofalus y byddai'r sefyllfa diwedd blwyddyn yn well na'r gyllideb, ond yn annhebygol o fod mewn sefyllfa gadarnhaol; roedd hyn yn gadarnhaol o ystyried y gostyngiad sylweddol mewn incwm ffioedd dysgu; nodwyd y gwaith caled i gyflawni'r sefyllfa hon gan y Cyngor;
- 2132.11 y cynhaliwyd trafodaeth ynghylch a oedd yr arbedion cost wedi'u hymgorffori yn y tymor hir neu oherwydd gohirio costau yn y dyfodol; nodwyd bod gwaith i'w wneud i sicrhau bod gan y sefydliad y modelau llwyth gwaith a chyfraniad cywir; nodwyd hefyd nad oedd y model ariannu yn cael ei rannu ymlaen llaw a oedd yn golygu bod cynllunio'r gyllideb yn gymhleth; cynhaliwyd trafodaeth ar yr angen i ddenu myfyrwyr rhyngwladol ar draws pob ysgol neu fuddsoddi ymhellach mewn disgyblaethau a wnaed hynny.

2133 Rhag Is-Ganghellor, Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd

Ymunodd Rhag Is-Ganghellor Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd â'r cyfarfod i siarad am yr eitem hon.

Nodwyd

- 2133.1 bod yr ysgolion yn y Coleg yn canolbwyntio'n glinigol yn bennaf, ar wahân i Ysgol y Biowyddorau a oedd yn cynnwys mwy o ddisgyblaethau sy'n canolbwyntio ar natur ac anifeiliaid;
- 2133.2 bod y Coleg yn fawr iawn ac yn fwy na rhai Prifysgolion canolig eu maint;

- 2133.3 bod llawer o gymhlethdodau o ran gwaith y Coleg gyda chyrff allanol (byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru, HEIW, ynghyd â chyrff proffesiynol a rheoleiddiol eraill), fel ei amodau ar gymarebau staff-myfyrwyr;
- 2133.4 y bu mewnlifiad mawr mewn dyfarniadau ymchwil, cyfanswm o £80m ar ddiwedd mis Mawrth 2023; roedd hyn yn cynrychioli 56% o gyfanswm y dyfarniadau i'r Brifysgol a tua 28% o incwm ymchwil y Brifysgol; gwnaeth y Coleg lawer iawn o ymchwil ar gyfer derbynwyr elusennol, yr oedd angen ei gydbwysu'n ofalus gan nad oedd y rhain yn aml yn cynnwys gorbenion;
- 2133.5 bod gweithgareddau arloesi allweddol sydd ar y gweill yn canolbwyntio ar roi'r gorau i gyllid gan WEFO ar gyfer y Cyflymydd Arloesedd Clinigol ac ymelwa masnachol yn y dyfodol ar gyfer y Sefydliad Darganfod Meddyginiaethau (MDI);
- 2133.6 mai pwyntiau allweddol addysg o fewn y coleg oedd:
- .1 y gostyngiad o c.20% mewn ymgeiswyr ar gyfer nyrsio a'r diffyg atyniad canfyddedig i'r proffesiwn;
 - .2 bod yr Ysgolion Seicoleg a Fferylliaeth ac Astudiaethau Fferyllol yn perfformio'n dda o ran niferoedd myfyrwyr;
 - .3 bod llwyfan perfformiad clinigol wedi'i roi ar waith yn Ysgolion y Gwyddorau Gofal Iechyd, Seicoleg a Fferylliaeth ac Astudiaethau Fferyllol a bod gwaith ar y gweill i wneud cais i ysgolion eraill;
 - .4 y gallai cynnig DPP Modiwlaidd Hyblyg Dysgu Dosbarthedig gynyddu incwm, ac roedd hyn yn gofyn am ystwythder i gael ei ecsbloetio'n llawn mewn modd amserol;
- 2133.7 bod risgiau allweddol yn ymwneud â chyflwr yr ystâd, yn enwedig ar safle Parc y Mynydd Bychan lle'r oedd y Brifysgol yn denant, ac yn benodol:
- .1 yr anallu i fodloni gofynion hyfforddiant y GDC yn yr Ysgol Deintyddiaeth gan fod cadeiriau deintyddol yn aml yn cael eu tynnu allan;
 - .2 methiant i gydymffurfio â rheoliadau'r Swyddfa Gartref ar gyfer gwasanaethau biolegol ac ymchwil anifeiliaid;
 - .3 dŵr a lleithder ar gampws Cathays yn arbennig yn yr Ysgolion Seicoleg a Fferylliaeth ac Astudiaethau Fferyllol;
- 2133.8 mai cyfleoedd posibl yn y dyfodol oedd:
- .1 adleoli posibl Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd i adeiladau ar safle Gorllewin Parc y Mynydd Bychan;
 - .2 symud i Barc Gwyddor Bywyd Cardiff Edge a fyddai'n caniatáu i'r Brifysgol, busnesau a'r bwrdd iechyd gael eu cyd-leoli;
 - .3 Ysbyty Athrofaol Cymru a Hwb Gwyddorau Iechyd Academiaidd, a fyddai'n ailddatblygu safle Parc y Mynydd Bychan ac yn cynnwys partneriaeth rhwng y Brifysgol, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro a Chanolfan Ganser Felindre; roedd achos busnes yn cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru ond bod y lleoliad ar gyfer hyn yn dal heb ei benderfynu; roedd diffyg penderfyniad ar gyfer lleoliad yr ysbyty yn risg allweddol, gan ei fod wedi creu oedi o ran unrhyw waith gwella ar safle Parc y Mynydd Bychan, a

effeithiodd ar brofiad a chadw myfyrwyr a gweithwyr meddygol proffesiynol.

Gadawodd Dr Pretty Sagoo, David Selway, John Shakeshaft a'r Athro Ian Weeks (Dirprwy Is-Ganghellor Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd) y cyfarfod.

2134 Unrhyw Fater Arall

Nodwyd nad oedd unrhyw faterion eraill.

2135 Eitemau a gafwyd i'w cymeradwyo

Penderfynwyd

- 2135.1 cymeradwyo'r papurau canlynol:
 Papur 22/377R Newidiadau i Ordinhadau
 Papur 22/540C Aelodaeth Leyg y Cyngor - Cadw ac Ailbenodi Aelodau
 22/87 Cyfansoddiad ac Aelodaeth y Pwyllgor Archwilio a Risg
 Papur 22/449R Polisi ar Wasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag Archwilio
 Partneriaeth strategol newydd gyda System Prifysgol Illinois.
 Papur 22/460C Adnewyddu Canolfan Max Planck (MPC) ar Hanfodion Catalysis
 Heterogenaidd (FUNCAT)
 Papur 22/535C Adroddiad y Senedd i'r Cyngor
 Papur 22/416R Cynllun Gweithredu Concordat Uniondeb Ymchwil

2136 Eitemau a gafwyd er gwybodaeth

Nodwyd y papurau canlynol:
 Papur 22/532C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risgiau
 Papur 22/564C Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau
 22/539 Adroddiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu
 Papur 22/574C Adroddiad gan y Pwyllgor Dileu Swyddi
 Papur 22/451HCR Adroddiad Diweddarar ar Ddigwyddiadau Mawr a Difrifol
 Papur 22/463C Diweddariad ar Gynlluniau Pensiynau'r Brifysgol
 Papur 22/465C Dangosfwrdd AD
 Papur 22/284 Adroddiad Monitro Blynnyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2021-22

Papur 22/464 Diweddariad Taith
 Papur 22/537 Selio Trafodion